OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1710

## Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

**Hysbysiadau a gyflwynir o dan erthygl 7 neu 8**

**9.** Rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 7 neu 8 ddynodi—

(a) dull y difa neu'r driniaeth, a all, yn achos triniaeth, gynnwys defnyddio sylwedd arbennig neu unrhyw weithred arall i'r diben o reoli'r clefyd neu'r pla; a

(b) y dyddiad erbyn yr hwn y mae'n rhaid i'r difa neu'r driniaeth ddigwydd, neu'r cyfnod yn ystod yr hwn y mae'n rhaid i'r driniaeth ddigwydd,

a chaiff ddynodi fod yn rhaid cyflawni'r difa neu'r driniaeth gan berson awdurdodedig, ym mhresenoldeb person awdurdodedig neu o dan arolygiaeth person awdurdodedig.